
Gwobrau Tiwtoriaid

# Ysbrydoli!™ Inspire!™

Tutor Awards 2026



**PAID STOPIO DYSGU | NEVER STOP LEARNING**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

D&G SEFYDLIAD DYSGU A GWAITH
LEARNING AND WORK INSTITUTE L&W

# Trefn y Digwyddiad/ Order of Ceremony

**Cyflwynir gan/Hosted by:**
Nia Parry
Cyflwynydd Teledu a Thiwtor
TV Presenter and Tutor



**5.45pm** **Cyrraedd a Bwffe**

**6:30pm** **Seremoni Wobrwyo:**
Cyflwynir gan Nia Parry, Cyflwynydd Teledu a Thiwtor

**6:35pm** **Croeso ac Anerchiad:**
John Griffiths, AS, Aelod Etholaethol o'r Senedd

**6.45pm** **Cyflwyno Gwobrau Tiwtoriaid Ysbrydoli! – Rhan 1**

**Connie Henry** – Addysg Bellach
**Sarah Cocchiara-Devine** – Lleoliad Gweithle
**Christopher Roberts** - Addysg Gymunedol (Cymeradwyaeth Uchel)
**Mary Lopez** - Addysg Gymunedol

**7:15pm** **Anerchiad**
James Owen, Prif Weithredwr, Medr

**7:25pm** **Cyflwyno Gwobrau Tiwtoriaid Ysbrydoli! – Rhan 2**

**Joanne Prescott** - Addysg Uwch (Cymeradwyaeth Uchel)
**Rabya Kadhim** - Addysg Uwch
**Ruth Lloyd** - Cymraeg i Oedolion

**7:55pm** **Sylwadau cloi:**
Michelle Matheron, Cyfarwyddwr Cymru, Sefydliad Dysgu a Gwaith

**8:00pm** **Diwedd**

**5.45pm** **Arrival & Buffet**

**6:30pm** **Award ceremony:**
Hosted by Nia Parry, TV Presenter and Tutor

**6:35pm** **Welcome and Address:**
John Griffiths, MS, Senedd Constituency Member

**6.45pm** **Inspire! Tutor Awards Presentation – Part 1**

**Connie Henry** – Further Education
**Sarah Cocchiara-Devine** – Workplace Setting
**Christopher Roberts** – Community Education (Highly Commended)
**Mary Lopez** – Community Education


**7:15pm** **Address:**
James Owen, Chief Executive, Medr

**7:25pm** **Inspire! Tutor Awards Presentation – Part 2**

**Joanne Prescott** – Higher Education (Highly Commended)
**Rabya Kadhim** – Higher Education
**Ruth Lloyd** – Welsh for Adults

**7:55pm** **Closing remarks:**
Michelle Matheron, Director for Wales, Learning and Work Institute

**8:00pm** **Close**



# Cyflwyniad/Introduction

## Vikki Howells

Y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch
Minister for Further and Higher Education



**Fel y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch, rwyf wedi gweld drosof fi fy hun y gwahaniaeth y gall tiwtoriaid ei wneud. Mae eich sgil, eich creadigrwydd a'ch gofal yn rhoi'r grym i bobl gredu yn eu hunain, goresgyn rhwystrau a chyrraedd nodau na fyddent erioed wedi dychmygu oedd o fewn eu cyrraedd.**

Y tu ôl i bob cymhwyster a enillwyd, a phob eiliad o gynnydd — mae yna diwtor. Mae'r gwobrau hyn yn gyfle i ddweud diolch. Maent yn taflu goleuni ar arferion eithriadol ar draws ein sector trydyddol — o addysgu ysbrydoledig ac amgylcheddau dysgu cynhwysol, i bartneriaethau effeithiol â diwydiant a chymorth rhagorol i ddysgwyr.

P'un a ydych chi'n gweithio ym maes addysg bellach, addysg uwch neu'n dysgu yn y gymuned, rydych chi'n chwarae rhan hanfodol wrth helpu pobl o bob oed a chefndir i gael gafael ar y cyfleoedd y maent yn eu haeddu. Diolch am bopeth rydych chi'n ei wneud dros ein cymunedau ac am eich cyfraniad at ddysgu gydol oes yng Nghymru. Mae eich ymroddiad yn gwneud mwy na newid bywydau unigolion — mae Cymru gyfan yn cryfhau hefyd, gan feithrin cenedl hyderus, fedrus ac uchelgeisiol sy'n barod i fanteisio ar y cyfleoedd sydd i ddod.

**Vikki Howells AS**
Y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch

**As Minister for Further and Higher Education, I have seen first-hand the difference tutors can make. Your skill, creativity and care empower people to believe in themselves, overcome barriers and reach goals they might once have thought out of reach.**

Behind every qualification earned, every moment of breakthrough — there is a tutor. These awards are our chance to say thank you. They shine a light on exceptional practice across our tertiary sector — from inspiring teaching and inclusive learning environments to impactful industry partnerships and outstanding learner support.

Whether you work in further education, higher education or community learning, you play a vital role in helping people of all ages and backgrounds access the opportunities they deserve. Thank you for all you do for our communities and for lifelong learning in Wales. Your dedication doesn't just change individual lives — it strengthens Wales as a whole, building a confident, skilled and ambitious nation ready to meet the opportunities ahead.

**Vikki Howells MS**
Minister for Further and Higher Education

# Rhagair/Foreword

## Michelle Matheron

Cyfarwyddwr Cymru, Sefydliad Dysgu a Gwaith
Director for Wales, Learning and Work Institute



**Croeso i'r Gwobrau Ysbrydoli! Tiwtoriaid sy'n dathlu rhagoriaeth, ymroddiad a grym trawsnewidiol addysg. Mae'n fraint medru dathlu tiwtoriaid anhygoel a chydnabod yr effaith a gawsant ar unigolion a'u cymunedau.**

Mae'r gwobrau hyn yn cydnabod rhai yn unig o'r tiwtoriaid ledled Cymru sy'n gweithio'n ddiflino i gefnogi oedolion mewn amrywiaeth o ffyrdd – o osodiadau cymunedol i brifysgolion ac o golegau addysg bellach i weithleoedd. Rydyn ni'n gwybod y gall tiwtor angerddol newid bywydau.

Mae bod yn feirniad yn y gwobrau yn anrhydedd ac yn her; cawsom nifer uchel o enwebiadau sy'n dyst o allu, angerdd ac effaith tiwtoriaid ar draws Cymru. P'un ai iddynt gael eu henwebu gan gydweithwyr, cymheiriaid neu ddysgwyr, roedd y panel beirniaid yn rhyfeddu at y straeon y gwnaethom eu darllen.

Rydym yn ddiolchgar i Lywodraeth Cymru am eu cefnogaeth ac i Medr, Aelodau o'r Senedd a'n sefydliadau partner am barhau i hyrwyddo addysg oedolion ledled Cymru. Ym mhob rhan o'r wlad mae tiwtoriaid yn helpu dysgwyr i ganfod eu llwybr i, neu mewn llawer o achosion yn ôl i, addysg. Efallai nad yw'r llwybr hwnnw yn syth bob amser, ac nad yw'r daith yn un rwydd, ond mae'r straeon yr ydym wedi eu rhannu yn dangos yr hyn y gellir ei gyflawni o gael y gefnogaeth gywir.

Mae'n anrhydeddu dathlu pobl sydd wrth galon dysgu gydol oes yng Nghymru.

Llongyfarchiadau i'n holl enillwyr. Gadewch i'w straeon ein hysbrydoli i gyd i barhau i feithrin diwylliant o ddysgu, gan sicrhau fod gan bob oedolyn yng Nghymru fynediad i'r addysg a'r cyfleoedd a haeddant.

**Michelle Matheron**
Cyfarwyddwr Cymru, Sefydliad Dysgu a Gwaith

**Welcome to the Inspire! Tutor Awards, a celebration of excellence, dedication, and the transformative power of education. It is a privilege to be able to celebrate incredible tutors and to recognise the impact they've had on individuals and their communities.**

These awards recognise just some of the tutors across Wales who work tirelessly to support adults to learn in a range of ways - from community settings to universities and from FE colleges to workplaces. We know a passionate tutor can change lives.

Judging the awards is an honour and a challenge; we received a high number of nominations which is testament to the calibre, passion and impact of tutors across Wales. Whether they were nominated by colleagues, peers or learners, the judging panel was in awe of the stories we read.

We are grateful to Welsh Government for their support and to Medr, Members of the Senedd, and our partner organisations for continuing to champion adult learning across Wales. In all parts of the country tutors are helping learners to find their path into, or in many cases back into, education.

That path may not always be straight, and the journey is not an easy one, but the stories we've shared show what can be achieved with the right support.

It is an honour to celebrate the people at the heart of lifelong learning in Wales. Congratulations to all our winners. Let their stories inspire us all to continue fostering a culture of learning, ensuring that every adult in Wales has access to the education and opportunities they deserve.

**Michelle Matheron**
Director for Wales, Learning and Work Institute

*Caiff Gwobrau Tiwtoriaid Ysbrydoli! eu cydlynu gan y Sefydliad Dysgu a Gwaith mewn partneriaeth gyda Llywodraeth Cymru, Colegau Cymru, Prifysgolion Cymru, Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru, Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a Phartneriaeth Addysg Oedolion Cymru.*

*The Inspire! Tutor Awards are coordinated by Learning and Work Institute in partnership with Welsh Government, Colleges Wales, Universities Wales, National Training Federation for Wales, The National Centre for Learning Welsh and the Adult Learning Partnership Wales.*

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Enillydd Gwobr Tiwtor Ysbrydoli! 2026

Inspire! Tutor Award Winner 2026

# Connie Henry

Coleg Gŵyr Abertawe

Gower College Swansea



**Mae Connie Henry yn cefnogi dysgwyr ac addysgwyr i ddeall a defnyddio arloesedd digidol mewn ffyrdd sy'n gweithio iddyn nhw.**

Mae ei gwaith fel Ymarferydd Sgiliau Hanfodol Cymru a Mentor Cymheiriaid Digidol yng Ngholeg Gŵyr Abertawe yn effeithio ar bobl yn y coleg a hefyd yn genedlaethol ac yn fyd-eang.

"Yr hyn sy'n gyrru fy ngwaith yw gweld dysgwyr ac addysgwyr yn darganfod dulliau gweithredu, strategaethau neu safbwyntiau sy'n wirioneddol newid y ffordd y maent yn dysgu, addysgu neu weithio," meddai. "Rwy'n angerddol am greu profiadau dysgu ymarferol, cynhwysol a grymusol, gan sicrhau fod arloesedd digidol yn gweithio i bobl yn hytrach na dod yn rhwystr.

"Drwy'r agwedd yma rwy'n anelu i wella deilliannau ar gyfer dysgwyr unigol a'r gymuned addysg ehangach yn lleol, cenedlaethol a rhyngwladol."

Mae rôl Connie yn ymestyn ymhell tu hwnt i sgiliau hanfodol, gan gwmpasu arloesedd digidol, ymarfer cynhwysol, mentora cymheiriaid, datblygu staff ac ymgysylltu cymunedol ar draws addysg.

Mae'n cyflenwi dysgu diddorol sy'n cynyddu hyder drwy gyfuniad o addysgu ystafell ddosbarth, gweithdai, mentora, cymorth un i un a datblygiad proffesiynol parhaus.

"Rwy'n anelu i alluogi addysgwyr i arbrofi gyda dulliau gweithredu, gan weld sut y gall newidiadau bach drawsnewid addysgu a chynyddu'r cyswllt â dysgwyr," ychwanegodd Connie. "Rwyf hefyd yn cyflwyno hyfforddiant ar gyfer staff sy'n cefnogi dysgwyr niwroamrywiol, gan weithio gydag arbenigwr mewn niwroamrywiaeth."

Drwy ennill cymwysterau Lefel 5 gyda Chymdeithas Brydeinig Dyslecsia, ynghyd â thair prentisiaeth, mae wedi datblygu dulliau 'sy'n newid y gêm' ar gyfer dysgwyr.

Fel Pencampwr Cymunedol Jisc, mae'n cyd-drefnu ac yn cyflwyno Tech Tober, rhaglen flynyddol o ddatblygu proffesiynol parhaus rhad am ddim ar gyfer addysgwyr ar draws y byd, gan rannu dulliau ymarferol dan arweiniad cymheiriaid at offer digidol. Caiff recordiadau o weminarau eu rhannu drwy LinkedIn fel adnoddau dysgu.

Mae gan Connie hefyd rôl allweddol ym Mhrosiect Addysg Gymunedol Kenya, gan gynnwys myfyrwyr mewn codi arian, digwyddiadau traws-gampws a chysylltiadau ysgol, gan ymgwreiddio Bagloriaeth Sgiliau Uwch Cymru ac alinio dysgu gyda Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig.

Cafodd ei henwebu gan Stella Elphick, Rheolwr Masnachol Digidol Coleg Gŵyr Abertawe a ddywedodd: "Mae gan Connie y gallu prin i drosi datblygiadau cymhleth ac sy'n symud yn gyflym, yn cynnwys deallusrwydd artiffisial, i fod yn gyfleoedd dysgu ymarferol hygyrch sy'n cyfoethogi addysgu, dysgu ac effeithlonrwydd sefydliad.

"Mae'n hybu addysg gynhwysol, yn llywio ymarfer cenedlaethol ac yn rhoi sgiliau parod i'r dyfodol i addysgwyr a dysgwyr, gan sicrhau effaith barhaus yn lleol, cenedlaethol a rhyngwladol."

> *"Yr hyn sy'n gyrru fy ngwaith yw gweld dysgwyr ac addysgwyr yn darganfod dulliau gweithredu, strategaethau neu safbwyntiau sy'n wirioneddol newid y ffordd y maent yn dysgu, addysgu neu weithio."*

> *"What drives my work is seeing learners and educators discover tools, strategies or perspectives that genuinely change how they learn, teach or work."*

**Connie Henry supports learners and educators to understand and apply digital innovation in ways that work for them.**

Her work as an Essential Skills Wales Practitioner and Digital Peer Mentor at Gower College Swansea is impacting people not only in the college but nationally and worldwide.

"What drives my work is seeing learners and educators discover tools, strategies or perspectives that genuinely change how they learn, teach or work," she said. "I am passionate about creating learning experiences that are practical, inclusive and empowering, ensuring that digital innovation works for people rather than becoming a barrier.

"Through this approach, I aim to improve outcomes for individual learners and the wider education community locally, nationally and internationally."

Connie's role extends way beyond essential skills, encompassing digital innovation, inclusive practice, peer mentoring, staff development and community engagement across education.

She delivers engaging, confidence-building learning through a blend of classroom teaching, workshops, mentoring, one-to-one support and sector-facing continuing professional development (CPD).

"I aim to empower educators to experiment with tools, seeing how small changes can transform teaching and enhance learner engagement," added Connie. "I also deliver training for staff supporting neurodiverse learners, working alongside a neurodiversity specialist."

Through achieving Level 5 qualifications with the British Dyslexia Association, along with three apprenticeships, she has developed 'game-changing tools' for learners.

As a Jisc Community Champion, she co-organises and delivers TechTober, an annual programme of free CPD for educators across the world, sharing practical, peer-led approaches to digital tools. Webinar recordings are shared via LinkedIn as learning resources.

Connie also plays a key role in the Kenya Community Education Project, engaging students in fundraising, cross-campus events and school links, while embedding the Advanced Skills Baccalaureate Wales and aligning learning to the UN Sustainable Development Goals.

She was nominated by Stella Elphick, Gower College Swansea's Digital Commercial Manager, who said: "Connie has a rare ability to translate complex and fast-moving developments, including artificial intelligence, into accessible, practical learning opportunities that enhance teaching, learning and organisational effectiveness.

"She advances inclusive education, informs national practice and equips educators and learners with future-ready skills, creating lasting impact locally, nationally and internationally."



Enillydd Gwobr Tiwtor Ysbrydoli! 2026

Inspire! Tutor Award Winner 2026

# Sarah Cocchiara-Devine

Media Academy Cymru



**Gan arwain y Rhaglen Addysg Bellach yn Media Academy Cymru yng Nghaerdydd, mae Sarah Cocchiara-Devine yn cefnogi mwy na 120 o ddysgwyr bob blwyddyn gan gyflwyno BTEC Lefelau 1, 2 a 3 mewn Cyfryngau Creadigol i oedolion sy'n aml wedi profi rhwystrau sylweddol i addysg.**

Gan fod llawer o ddysgwyr wedi cael profiadau negyddol o ddysgu ffurfiol, mae Sarah yn datblygu llwybrau dilyniant pwrpasol i sicrhau y gallant ffynnu, er nad oes ganddynt unrhyw gymwysterau academaidd blaenorol ac yn ddi-hyder.

Mae'n creu gofod diogel a chynhwysol lle mae dysgwyr yn teimlo eu bod yn cael eu parchu, eu cefnogi a'u grymuso i ailgysylltu gyda addysg ar eu telerau ei hunain. Mae ei hymagwedd yn gweithio, gan fod presenoldeb dysgwyr yn uwch na 90%, 89% yn ennill eu hachrediad a 86% yn symud ymlaen i addysg bellach neu addysg uwch.

Enwebwyd Sarah gan Nick Corrigan, Prif Weithredwr Media Academy Cymru a ddywedodd: "Mae'r canlyniadau hyn yn neilltuol o arwyddocaol o gofio am yr heriau personol ac addysgol cymhleth oedd yn wynebu llawer o ddysgwyr pan aethant i'r academi.

"Mae gan Sarah rôl ganolog mewn dilyniant, gan roi arweiniad wedi ei deilwra, anogaeth a chymorth ymarferol i helpu dysgwyr i lywio'r camau nesaf yn hyderus. Mae ei hymagwedd holistig yn cefnogi gwell llesiant a gwytnwch yn ogystal â llwyddiant addysgol."

Drwy gwricwlwm hyblyg a chynhwysol, mae Sarah wedi datblygu rhaglenni dysgu diddorol perthnasol i'r diwydiant sy'n defnyddio dulliau seiliedig ar brosiect a chreadigol at addysgu, gan alluogi dysgwyr i ddatblygu sgiliau trosglwyddadwy ac ymarferol yn y cyfryngau.

Mae'n gweithio'n agos gyda phartneriaid allanol i gyflwyno cyfleoedd byd go iawn, cysylltiadau yn y diwydiant a mentoriaeth i ddysgwyr, gan helpu i bontio'r bwlch rhwng addysg a chyflogaeth.

"Mae gan lawer o ddysgwyr oedd yn meddwl nad oedd addysg iddyn nhw yn awr yr hyder a'r sgiliau i ddilyn dysgu lefel uwch neu gyfleoedd proffesiynol yn y diwydiannau creadigol," meddai Sarah.

"Yn y pen draw, caiff fy ngwaith ei yrru gan y dymuniad i wneud addysg yn hygyrch ac ystyrlon ac yn newid bywydau. Gweld dysgwyr yn goresgyn heriau, ennill cymwysterau a symud ymlaen i addysg bellach neu gyflogaeth yw'r hyn sy'n gwneud y gwaith hwn yn anhygoel o werth chweil.

"Nid yw hi byth yn rhy hwyr i ddechrau eto ac nid yw eich profiadau yn y gorffennol yn diffinio eich dyfodol."

Disgrifiodd un dysgwr Sarah fel "seren go iawn" gan ddweud "Mae ei chred yn ei dysgwyr a'i hymroddiad i'n helpu i lwyddo wedi cael effaith drawsnewidiol ar fy mywyd."

> *"Mae gan lawer o ddysgwyr oedd yn meddwl nad oedd addysg iddyn nhw yn awr yr hyder a'r sgiliau i ddilyn dysgu lefel uwch neu gyfleoedd proffesiynol yn y diwydiannau creadigol."*

> *"Many learners who previously believed that education was not for them now have the confidence and skills to pursue higher-level learning or professional opportunities in the creative industries."*

**Leading the Further Education Programme at Media Academy Cymru in Cardiff, Sarah Cocchiara-Devine supports more than 120 learners annually, delivering BTEC Levels 1, 2 and 3 in Creative Media to adults who have often experienced significant barriers to education.**

As many learners have had negative experiences of formal learning, Sarah develops bespoke progression pathways to ensure they can thrive, despite having no previous academic qualifications and lacking confidence.

She creates a safe, inclusive space where learners feel respected, supported and empowered to re-engage with education on their own terms. Her approach works, as learner attendance exceeds 90%, 89% achieve their accreditation and 86% progress into further or higher education.

Sarah was nominated by Media Academy Cymru, Chief Executive Nick Corrigan, who said: "These results are particularly significant given the complex personal and educational challenges faced by many learners on entry into the academy.

"Sarah plays a pivotal role in progression, providing tailored guidance, encouragement, and practical support to help learners navigate next steps with confidence. Her holistic approach supports not only educational success but also improved wellbeing and resilience."

Through a flexible and inclusive curriculum, Sarah has developed engaging, industry-relevant learning programmes that use project-based and creative approaches to teaching, enabling learners to develop practical media and transferable skills.

She works closely with external partners to expose learners to real-world opportunities, industry connections and mentorship, helping to bridge the gap between education and employment.

"Many learners who previously believed that education was not for them, now have the confidence and skills to pursue higher-level learning or professional opportunities in the creative industries," said Sarah.

"Ultimately, my work is driven by the desire to make education accessible, meaningful and life changing. Witnessing learners overcome challenges, gain qualifications and progress into further education or employment is what makes this work incredibly rewarding.

"It's never too late to start again and your past experiences do not define your future."

One learner described Sarah as a "superstar" adding: "Her belief in her learners and dedication to helping us succeed has had a transformative impact on my life."



Enillydd Cymeradwyaeth Uchel

Highly Commended Winner

# Christopher Roberts



Coleg Penybont

Bridgend College

**Mae Christopher Roberts wedi gweithio i Goleg Penybont fel darlithydd mathemateg mewn Dysgu Oedolion yn y Gymuned am 14 mlynedd. Mae'n arloesi yn gyson i drawsnewid y ffordd y mae'n cyflwyno dosbarthiadau i ateb anghenion a gofynion y gymuned.**

Drwy ddatblygu partneriaethau gydag Ysgolion Uwchradd Bryntirion, Porthcawl a Phencoed, mae'n cynnal dosbarthiadau Mathemateg i Rieni, sydd o fudd i unigolion a hefyd eu teuluoedd a chymunedau.

Mae hefyd yn cefnogi dilyniant drwy gyflwyno cyrsiau Mathemateg lefel mynediad 1 a 2 mewn partneriaeth gyda B-Leaf Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen, prosiect seiliedig ar waith ar gyfer oedolion gydag anghenion dysgu ychwanegol.

Gan dargedu oedolion yn yr ardaloedd o angen mwyaf, mae Christopher yn cynnal cyrsiau sgiliau rhifedd hanfodol ar draws tri safle partneriaeth gymunedol i wella rhagolygon cyflogaeth ac annibyniaeth ariannol, cynyddu cyswllt cymunedol a chefnogi llesiant.

Mae ei ddosbarthiadau diddorol mor boblogaidd fel eu bod yn sicrhau cyfradd presenoldeb rhagorol o 95% a chyfradd cwblhau cymwysterau cyson o fwy na 90%.

Oherwydd ei angerdd am Ddysgu Oedolion y Gymuned, mae'n hyrwyddo holl rychwant cyrsiau y coleg mewn digwyddiadau allanol, mewn hybiau cymunedol, archfarchnadoedd, ysgolion, gorsafoedd bws a chanolfannau siopa.

"Mae bod yn diwtor Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn cael effaith gadarnhaol a mesuradwy ar y sgiliau, cyswllt cymunedol a llesiant yr oedolion yn fy nghymuned," meddai Christopher. "Rwy'n ceisio chwarae rhan bwysig wrth chwalu rhwystrau addysgol sy'n parhau i lesteirio rhai oedolion, teuluoedd a chymunedau."

Mae wedi manteisio o addysg gymunedol i oedolion ei hun, gan esbonio: "O fy  mhrofiad personol, mae dilyn cyrsiau mewn crochenwaith wedi newid fy mywyd yn llwyr – mae wedi gwella fy llesiant, fy helpu i ganfod cymuned a rhoi sgiliau i fi."

Cafodd ei enwebu gan Helen Davies o Goleg Penybont a ddywedodd, "Mae Chris yn ymarferydd rhagorol mewn Dysgu Oedolion yn y Gymuned ac mae'r hyn a gyflawnodd, ei ymarfer arloesol ac ymroddiad dwfn i ddysgu gydol oes wedi cael effaith drawsnewidiol ar ddysgwyr, teuluoedd a chymunedau ar draws Pen-y-bont ar Ogwr a thu hwnt.

"Mae cyfraniad Chris at ddysgu gydol oes yng Nghymru yn sylweddol. Mae ei waith yn cefnogi blaenoriaethau Llywodraeth Cymru mewn sgiliau oedolion, rhifedd, cyflogadwyedd a dysgu fel teulu, tra'n cryfhau'r diwylliant o ddysgu gydol oes."

> *"Mae bod yn diwtor Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn cael effaith gadarnhaol a mesuradwy ar y sgiliau, cyswllt cymunedol a llesiant yr oedolion yn fy nghymuned."*

> *"Being an Adult Community Learning tutor means making a positive and measurable impact on the skills, community bonds and wellbeing of the adults in my community."*

**Christopher Roberts has worked for Bridgend College as an Adult Community Learning (ACL) mathematics lecturer for 14 years. He consistently drives innovation to transform the way he delivers classes to meet community needs and demands.**

By developing partnerships with Bryntirion, Porthcawl and Pencoed Secondary Schools, he runs Maths for Parents' classes, which benefit not only individuals but their families and communities, too.

He also supports progression by delivering entry level 1 and 2 Mathematics courses in partnership with Awen Cultural Trust B-Leaf, a work-based project for adults with additional learning needs.

Targeting adults in areas of most need, Christopher runs essential numeracy skills courses across three community partnership venues to improve employment prospects and financial independence, enhance community bonds and support wellbeing.

His engaging classes are so popular that he achieves an outstanding 95% attendance rate and a consistent qualifications completion rate exceeding 90%.

Due to his passion for Adult Community Learning, he promotes the college's full course range at outreach events, at community hubs, supermarkets, schools, bus stations and shopping centres.

"Being an Adult Community Learning tutor means making a positive and measurable impact on the skills, community bonds and wellbeing of the adults in my community," said Christopher. "I try to play an important role in breaking down educational barriers that continue to hold back certain adults, families and communities."

He has benefitted from adult community education himself, explaining: "From personal experience, taking up pottery has completely changed my life - it improved my wellbeing, helped me find a community and gave me skills."

He was nominated by Helen Davies from Bridgend College, who said: "Chris is an outstanding ACL practitioner whose achievements, innovative practice and deep commitment to lifelong learning have made a transformative impact on learners, families and communities across Bridgend and beyond.

"Chris' contribution to lifelong learning in Wales is significant. His work supports Welsh Government priorities around adult skills, numeracy, employability and family learning, while strengthening the culture of lifelong learning."



Enillydd Gwobr Tiwtor Ysbrydoli! 2026

Inspire! Tutor Award Winner 2026

# Mary Lopez



**Mae'r tiwtor Mary Lopez wedi goresgyn cyfres o brofiadau negyddol a heriau iechyd yn ei bywyd i ddod yn addysgwr eithriadol sy'n trawsnewid bywydau ei dysgwyr.**

Mae Mary yn addysgu Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL) ac yn arwain cyrsiau rhifedd a chyflogadwyedd. Mae'n addysgu'n wyneb yn wyneb mewn cymunedau ar draws Cymru ac ar-lein, gan gyrraedd oedolion sy'n ffoaduriaid, mudwyr a rhai heb fawr o brofiad blaenorol o addysg. Mae mor boblogaidd fel bod ei dosbarthiadau yn llawn bob amser.

"Rwyf wrth fy modd yn gweld fy nysgwyr yn integreiddio, yn cynyddu mewn hyder ac yn wirioneddol ddechrau ffynnu," meddai Mary, sydd hefyd yn gwirfoddoli mewn elusen sy'n cefnogi ffoaduriaid. "Mae'r cyrsiau yn meithrin sgiliau iaith, cefnogi gwytnwch emosiynol ac yn helpu pobl i ymdopi â heriau bob dydd mewn gwlad newydd. Mae'n ymwneud â chwalu rhwystrau ac agor llwybrau real a pharhaus i ddyfodol iachach.

"Mae fy hyfforddiant arbenigol mewn ymwybyddiaeth o drawma a phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod yn llunio fy addysgu. Mae'n golygu mod i'n medru creu gofodau diogel a chefnogol lle mae dysgwyr sydd wedi goroesi gwrthdaro, dadleoli neu galedi yn teimlo y gallant ailadeiladu eu hyder, cymryd rhan lawn a symud ymlaen heb ofn.

"Daeth fy llwybr fy hun i diwtora mewn cyfnod o ansefydlogrwydd pan gamodd elusennau i mewn i gynnig lloches, gofal a diogelwch. Mae'r profiad hwnnw wedi rhoi empathi go iawn i fi. Rwy'n deall yr ofn, digartrefedd ac afiechyd sy'n wynebu llawer o fy nysgwyr ac mae'n gadael i mi gysylltu gyda nhw a chynnig gobaith go iawn."

Mae Mary yn falch tu hwnt o'i dysgwyr ac mae gan lawer ohonynt yn awr swyddi, yn gwirfoddoli neu'n astudio mewn coleg neu brifysgol. "Mae'r cyfnodau hyn yn dangos yn union pa mor rymus yw addysg gymunedol wrth agor drysau i lwyddiant personol a phroffesiynol hirdymor," ychwanegodd.

Mae'n creu adnoddau dysgu cynhwysol ac ansawdd uchel sydd yn hygyrch i ddysgwyr gydag anghenion cymhleth ac yn adeiladu llwybrau sy'n eu galluogi i lwyddo ar eu cyflymder eu hunain.

Er fod ganddi anabledd sy'n achosi poen cronig, blinder a phroblemau symud, mae Mary wedi cyfuno gwaith gyda chwblhau ail radd meistr, cymhwyster CELTA ac mae'n awr yn gweithio tuag at ddoethuriaeth mewn addysgu Saesneg.

"Rwy'n gobeithio y bydd fy stori yn annog eraill i weld dysgu fel ffynhonnell gydol oes o obaith, cyfle a newid go iawn," meddai.

Dywedodd ei henwebydd: "Mae Mary yn trawsnewid pethau. Mae'n chwalu rhwystrau, ehangu mynediad, adeiladu dyfodol ac yn gwneud hyn i gyd yn dawel a thyner a gydag integriti rhyfeddol."

*"Mae fy hyfforddiant arbenigol mewn ymwybyddiaeth o drawma a phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod yn llunio fy addysgu. Mae'n golygu mod i'n medru creu gofodau diogel a chefnogol lle mae dysgwyr sydd wedi goroesi gwrthdaro, dadleoli neu galedi yn teimlo y gallant ailadeiladu eu hyder, cymryd rhan lawn a symud ymlaen heb ofn."*

*"My specialist training in trauma awareness and adverse childhood experiences shapes my teaching. It means I can create safe, supportive spaces where learners who have survived conflict, displacement or hardship feel able to rebuild their confidence, take part fully and move forward without fear."*

**Tutor Mary Lopez has overcome a series of negative life experiences and health challenges to become an exceptional educator who transforms the lives of her learners.**

Mary teaches English for Speakers of Other Languages (ESOL) and leads numeracy and employability courses. She teaches face-to-face in communities across Wales and online, reaching adult refugees, migrants and those with little previous experience of education. She is so popular that her classes are always full.

"I love seeing my learners integrate, grow in confidence and truly start to thrive," said Mary, who also volunteers at a charity supporting refugees. "The courses build language skills, nurture emotional resilience and help people navigate everyday challenges in a new country. It's about breaking down barriers and opening real, lasting pathways to brighter futures.

"My specialist training in trauma awareness and adverse childhood experiences shapes my teaching. It means I can create safe, supportive spaces where learners who have survived conflict, displacement or hardship feel able to rebuild their confidence, take part fully and move forward without fear.

"My own path into tutoring came during a time of instability, when charities stepped in to offer refuge, care and safety. That experience has given me real empathy.

I know the fear, homelessness and illness that many of my learners face and it lets me connect with them and offer genuine hope."

Mary is immensely proud of her learners, many of whom now have jobs, volunteer or are studying in college or university. "These moments show just how powerfully community education can open doors to long-term personal and professional success," she adds.

She creates inclusive, high quality learning resources accessible to learners with complex needs and builds pathways that allow them to succeed at their own pace.

Despite a disability, which causes chronic pain, fatigue and mobility issues, Mary has combined work with completing a second master's degree, CELTA qualification and is now seeking a doctorate in English language teaching.

"I hope my story encourages others to see learning as a lifelong source of hope, opportunity and real change," she said.

Her nominator said: "Mary is transformative. She breaks down barriers, widens access, builds futures and does all this quietly, gently and with extraordinary integrity."



Enillydd Cymeradwyaeth Uchel
Highly Commended Winner

# Joanne Prescott

Prifysgol Wrecsam
Wrexham University



**Mae Dr Joanne Prescott wedi ymroi ei gyrfa i sicrhau y gall dysgwyr gael mynediad i'r un cyfleoedd addysg trawsnewidiol a newidiodd ei bywyd hi ei hun.**

Bellach yn uwch ddarlithydd mewn Troseddeg a Phlismona ym Mhrifysgol Wrecsam, cafodd Joanne lawdriniaeth i drawsblannu dwy ysgyfaint a achubodd ei bywyd ym mis Hydref 2011. Yn ystod y broses hir o adferiad, daeth addysg bellach yn llwybr iddi yn ôl i gyflogaeth a rhoi gobaith iddi ar gyfer y dyfodol.

"Fe roddodd astudio Troseddeg ddiben i mi ac fe wnaeth addysg ailgodi fy hyder, adfer fy hunaniaeth a rhoi cyfnod newydd o fywyd i mi", meddai Joanne. "Rhoddodd addysg oedolion fy mywyd yn ôl i fi. Bob dydd rwy'n ymdrechu i sicrhau y caiff pobl eraill yr un cyfle."

Cyn dychwelyd i addysg, bu'n gweithio mewn gofal iechyd a helpodd i sefydlu prosiect yn darparu llety dros nos ar gyfer pobl ddigartref.

Yn ogystal â darlithio, mae Joanne yn arwain rhaglen gradd BA (Anrh) Troseddeg a Chyfiawnder Troseddol ym Mhrifysgol Wrecsam ac yn cyflwyno addysg uwch i garcharorion yn HMP Berwyn.

Gan addysgu troseddau cyfoes, cyfiawnder, adsefydlu a niwed cymdeithasol, mae wedi datblygu a diwygio'r cwricwlwm i sicrhau ei fod yn gynhwysol, cyfoes ac yn berthnasol yn broffesiynol.

Enillodd Joanne ei PhD yn archwilio dulliau gweithredu adferol yn HMP Berwyn, gan ddyfnhau ei dealltwriaeth o addysg drawsnewidiol, yn arbennig ar gyfer carcharorion a gafodd eu hymyleiddio.

Nid yw ei gwaith rhagorol wedi mynd heb ei sylwi. Cafodd ei henwi yn Ddarlithydd y Flwyddyn yng ngwobrau staff Prifysgol Wrecsam yn 2019 a 2025, a chafodd hefyd ei chymeradwyo am ei gwaith partneriaeth gyda Gyrfaoedd ac Ehangu Mynediad yn HMP Berwyn.

"Nid gwobrau yw'r effaith sydd bwysicaf i mi, ond cynnydd dysgwyr yn ailddarganfod eu llais drwy addysg a sgil-effeithiau rhoi yn ôl," meddai.

"Rwy'n sefyll fel tystiolaeth o rym trawsnewidiol addysg – o glaf trawsblannu yn ailadeiladu ei nerth, i fod yn arweinydd academaidd mewn prifysgol a charcharau a llunio llwybrau ar gyfer eraill."

Enwebwyd Joanne gan Dr Sarah Dubberley, prif ddarlithydd, a ganmolodd ei gwaith o fewn y brifysgol ac yn HMP Berwyn ac am ddatblygu'r cwricwlwm ac ehangu mynediad i ddysgu.

"Mae ei gallu i ysbrydoli dysgwyr i ailgysylltu gyda addysg yn ffactor allweddol mewn cynnydd parhaus a deilliannau cadarnhaol i ddysgwyr," ychwanegodd.

*"Nid gwobrau yw'r effaith sydd bwysicaf i mi, ond cynnydd dysgwyr yn ailddarganfod eu llais drwy addysg a sgil-effeithiau rhoi yn ôl."*

*"The impact that matters most to me is not awards; it's progression of learners rediscovering their voice through education and the ripple effect of giving back."*

**Dr Joanne Prescott has dedicated her career to ensuring that learners can access the same transformative education opportunities that have changed her life.**

Now a Senior Lecturer in Criminology and Policing at Wrexham University, Joanne underwent lifesaving double lung transplant surgery in October 2011. During the long recovery process, higher education became her pathway back into employment and gave her hope for the future.

"Studying Criminology gave me purpose and education, rebuilt my confidence, restored my identity and gave me a renewed lease of life, said Joanne. "Adult learning gave me my life back. Every day, I strive to ensure that others are given that same chance."

Before returning to education, she worked in healthcare and helped to set up a project providing overnight accommodation for homeless people.

In addition to lecturing, Joanne is programme leader for the BA (Hons) Criminology and Criminal Justice degree at Wrexham University and delivers higher education to prisoners within HMP Berwyn.

Teaching contemporary crime, justice, rehabilitation and social harm, she has developed and refreshed the curriculum to ensure it's inclusive, current and professionally relevant.

Joanne achieved her PhD examining rehabilitative approaches within HMP Berwyn, deepening her understanding of transformational education, particularly for marginalised prisoners.

Her excellent work has not gone unnoticed. Named Lecturer of the Year at Wrexham University's staff awards in 2019 and 2025, she has also been commended for partnership work with Careers and Widening Access at HMP Berwyn.

"The impact that matters most to me is not awards; it's progression of learners rediscovering their voice through education and the ripple effect of giving back," she stressed.

"I stand as evidence of the transformational power of education – from a transplant patient rebuilding her strength, to academic lead in university and prisons and shaping pathways for others."

Joanne was nominated by, Dr Sarah Dubberley, principal lecturer, who praised her work within the university and at HMP Berwyn and for developing the curriculum and widening access to learning.

"Her ability to inspire learners to re-engage with education is a key factor in sustained progression and positive learner outcomes," she added.



Enillydd Gwobr Tiwtor Ysbrydoli! 2026

Inspire! Tutor Award Winner 2026

# Rabya Kadhim

Coleg Gŵyr Abertawe

Gower College Swansea



**Mae ffocws y Darlithydd Peirianneg blaengar Rabya Kadhim ar ehangu cyfranogiad mewn addysg uwch a chefnogi dysgwyr i gyflawni deilliannau sy'n trawsnewid eu bywydau a'u dyfodol mewn modd cadarnhaol.**

Mae'n cyflwyno dysgu addysg uwch ar draws dwy raglen – HNC/HND mewn Peirianneg Drydanol ac Electronig a Pheirianneg Fecanyddol, mewn partneriaeth â Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant a Phrentisiaeth Gradd BEng mewn partneriaeth â Phrifysgol Caerdydd.

Mae Rabya wedi arwain wrth ddatblygu a gweithredu'r rhaglenni hyn i ateb anghenion esblygol y diwydiant, ar ôl ymgynghori'n eang gyda dysgwyr, cyflogwyr, partneriaid prifysgol a chyrff dyfarnu. Maent yn rhoi llwybrau dilyniant clir i gyflogaeth, prentisiaethau ac astudiaeth ôl-radd.

"Caiff fy addysgu ei yrru gan gred gref y dylai addysg fod yn hygyrch, cynhwysol a grymusol, yn arbennig ar gyfer dysgwyr nad ydynt efallai yn ystyried eu hunain fel myfyrwyr traddodiadol addysg uwch," meddai.

Mae dysgwyr Rabya yn amrywio o bobl ifanc yn dechrau ar eu taith mewn addysg uwch i ddysgwyr aeddfed sy'n dychwelyd i addysg. Mae'n creu amgylchedd dysgu rhyngweithiol deinamig lle mae dysgwyr aeddfed yn rhannu eu gwybodaeth waith a'u profiad bywyd gyda myfyrwyr iau sydd yn eu tro yn cynnig cymorth gyda sgiliau academaidd a digidol.

Gan ddeall yr heriau sy'n wynebu ei dysgwyr, mae'n defnyddio dull addysgu hyblyg a chynhwysol, gan roi llawer o gymorth academaidd a bugeiliol – yn aml gyda'r nos ac ar benwythnosau – drwy fentora un i un, sesiynau tiwtorial ychwanegol ac adnoddau dysgu pwrpasol.

Mae'r gefnogaeth hon yn annog dysgwyr i gwblhau eu cymhwyster yn hyderus. Dywed Rabya mai llwyddiant dysgwyr yw canlyniad mwyaf ystyrlon ei gwaith.

"Rwy'n ystyried mai fy rôl yw deall a chefnogi dysgwyr, gan gydnabod fod cysylltiad agos rhwng llwyddiant academaidd â llesiant a hyder," esboniodd Rabya. "Mae Gwobrau Ysbrydoli! Tiwtoriaid yn adlewyrchu'r gwerthoedd y ceisiaf eu cynnal bob dydd: ymroddiad i lwyddiant dysgwyr, ymarfer cynhwysol, arloesi a chred ym mhotensial pob unigolyn."

Cafodd ei henwebu gan Rhys Thomas, Rheolwr Maes Dysgu Peirianneg yng Ngholeg Gŵyr Abertawe a ddywedodd: "Bu Rabya yn sbardun dros ragoriaeth, cyfle ac arloesi o fewn addysg uwch yn y sector Addysg Bellach, gan arwain trawsnewidiad a gafodd effaith dybryd a pharhaus ar ddysgwyr, cydweithwyr a'r sefydliad ehangach."

> *"Caiff fy addysgu ei yrru gan gred gref y dylai addysg fod yn hygyrch, cynhwysol a grymusol, yn arbennig ar gyfer dysgwyr nad ydynt efallai yn ystyried eu hunain fel myfyrwyr traddodiadol addysg uwch."*





> *"My teaching is driven by a strong belief that education should be accessible, inclusive and empowering, particularly for learners who may not see themselves as traditional higher education students."*

**Pioneering Engineering Lecturer Rabya Kadhim is focused on widening participation in higher education and supporting learners to achieve outcomes that positively transform their lives and futures.**

She delivers higher education learning across two programmes - HNC/HND in Electrical & Electronic Engineering and Mechanical Engineering, in partnership with the University of Wales Trinity Saint David and the BEng Degree Apprenticeship, in partnership with Cardiff University.

Rabya has led on the development and implementation of these programmes to meet evolving industry needs, after consulting widely with learners, employers, university partners and awarding bodies. They provide clear progression routes into employment, apprenticeships and postgraduate study.

"My teaching is driven by a strong belief that education should be accessible, inclusive and empowering, particularly for learners who may not see themselves as traditional higher education students," she said.

Rabya's learners range from young people starting their higher education journey to mature learners returning to education. She creates a dynamic, interactive learning environment where mature learners share their work knowledge and life experience with their younger counterparts who provide academic and digital skills support in return.

Understanding the challenges facing her learners, she adopts a flexible and inclusive teaching approach, providing extensive academic and pastoral support - often in evenings and weekends - through one-to-one mentoring, additional tutorials and tailored learning resources.

This support encourages learners to complete their qualification with confidence.

Rabya says learner success is the most meaningful outcome of her work.

"I see my role as understanding and supporting learners, recognising that academic success is closely linked to wellbeing and confidence," explains Rabya. "The Inspire! Tutor Awards reflect the values I strive to uphold every day: commitment to learner success, inclusive practice, innovation and belief in the potential of every individual."

She was nominated by Rhys Thomas, engineering Learning Area Manager at Gower College Swansea, who said: "Rabya has been a driving force for excellence, opportunity and innovation within higher education in the FE sector, leading transformative change that has had a profound and lasting impact on learners, colleagues and the wider institution."



# Ruth Lloyd

Dysgu Cymraeg Morgannwg
Learn Welsh Glamorgan



**Mae Ruth yn diwtor gyda Dysgu Cymraeg Morgannwg, a gaiff ei redeg gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Mae hi yn addysgu Cymraeg Gwaith mewn gweithleoedd o lefel mynediad i lefel uwch, yn defnyddio sgiliau a gafodd fel athrawes mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yn gynharach yn ei gyrfa.**

Mae Ruth ar secondiad ar hyn o bryd i'r y Weinidogaeth Amddiffyn, gan addysgu dysgwyr sawl Bataliwn Gymreig yn cynnwys Pennaeth y Fyddin yng Nghymru, ac wedi cyflwyno gwersi yn flaenorol i Gyrfa Cymru, y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Chyllid a Thollau EF.

Yn ymroddedig i ddatblygu sgiliau ysgrifennu creadigol ei dysgwyr, cofrestrodd ar gyfer hyfforddiant arbenigol mewn cynganeddu ym Mhrifysgol Aberystwyth.

"Mae'r datblygiad proffesiynol yma wedi cryfhau fy ymarfer a chyfoethogi ansawdd a dilysrwydd y sgiliau barddoni rwy'n eu cynnig," esboniodd Ruth. "Mae datblygu 'O'r gair i'r gerdd' yn un o'r pethau allweddol rwyf wedi eu cyflawni.

"Mae'r cwrs yn rhoi cyfleoedd i ddysgwyr, yn arbennig rai gyda sgiliau uwch, i ddadansoddi barddoniaeth, trafod llenyddiaeth ac ysgrifennu eu cerddi eu hunain yn Gymraeg.

"Nododd Estyn y cwrs fel enghraifft o arfer rhagorol a dweud fod y dysgwyr yn dod yn siaradwyr Cymraeg diwylliedig a gweithredol. Mae'r gydnabyddiaeth hon yn dangos llwyddiant cyfuno datblygu iaith gyda chreadigrwydd ac ymgysylltu diwylliannol."

Yn ymarferydd creadigol gydag ymroddiad gydol oes i addysg a'r celfyddydau, mae Ruth wedi addysgu dysgwyr rhwng tair a 80 oed ac mae'n cefnogi'r hyn a ddisgrifiodd fel "dysgu gydol oes difyr, sydd â her briodol a pherthnasol, sy'n hygyrch i bawb."

Mae cyflwr iechyd personol hirdymor wedi dyfnhau ei chydymdeimlad, gwytnwch a dealltwriaeth o'r rhwystrau sy'n wynebu rhai oedolion pan fyddant yn dychwelyd i ddysgu.

"Mae dysgu ar gyfer pawb, ar unrhyw gam o fywyd," ychwanegodd Ruth. "O gael y gefnogaeth gywir, creadigrwydd ac anogaeth, gall oedolion gyflawni llawer mwy nag a ddisgwyliant a dod yn gyfranogwyr hyderus a gweithredol yn iaith a diwylliant Cymru."

Cafodd ei henwebu gan un o'i dysgwyr, Luisa Andreou-Jones o Gyrfa Cymru a ddywedodd: "Mae anogaeth Ruth wedi galluogi nifer o aelodau'r dosbarth i sefyll arholiadau, symud ymlaen i ddosbarthiadau uwch ac edrych am gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol ac yn broffesiynol.

"Diolch iddi hi, rydym yn datblygu dealltwriaeth a sgiliau sy'n gwella ein hyder a hefyd ein hymarfer proffesiynol."

Ychwanegodd Cath Stephens, Pennaeth Dysgu Cymraeg Morgannwg: "Mae Ruth yn batrwm o ragoriaeth mewn addysg oedolion ac yn ymgorfforiad gwirioneddol o ysbryd y Gwobrau Ysbrydoli!"

> *"Mae dysgu ar gyfer pawb, ar unrhyw gam o fywyd. O gael y gefnogaeth gywir, creadigrwydd ac anogaeth, gall oedolion gyflawni llawer mwy nag a ddisgwyliant a dod yn gyfranogwyr hyderus agweithredol yn iaith a diwylliant Cymru."*

> *"Learning is for everyone, at any stage of life. With the right support, creativity and encouragement, adults can achieve far more than they expect and become confident, active participants in Welsh language and culture."*

**Ruth is a tutor with Learn Welsh Glamorgan, which is run by the University of South Wales on behalf of the National Centre for Learning Welsh. She teaches Welsh in workplaces, from Entry to Advanced level, using skills gained as a primary and secondary teacher earlier in her career.**

Ruth is currently on secondment to the Ministry of Defence, teaching learners across many Welsh Battalions, including the Head of the Army in Wales, having previously delivered classes for Careers Wales, the NHS and HMRC.

Committed to developing her learners' creative writing skills, she enrolled for specialist training in writing cynghanedd - an ancient Welsh poetic system - at Aberystwyth University.

"This professional development has strengthened my practice and enhanced the quality and authenticity of the poetry writing skills that I offer," explained Ruth. "One of my key achievements has been the development of 'O'r gair i'r gerdd'.

"The course provides learners, particularly those with more advanced skills, with opportunities to analyse Welsh poetry, discuss literature and write their own poems through the medium of Welsh.

"Estyn highlighted the course as an example of excellent practice and noted that learners became 'cultured, active Welsh speakers'. This recognition reflects the success of combining language development with creativity and cultural engagement."

A creative practitioner with a lifelong commitment to education and the arts, Ruth has taught learners aged from three to 80 and supports what she describes as "enjoyable, appropriately challenging and relevant lifelong learning, accessible to all."

A long-term, personal health condition has deepened her empathy, resilience and understanding of the barriers some adults face when returning to learning.

"Learning is for everyone, at any stage of life," added Ruth. "With the right support, creativity and encouragement, adults can achieve far more than they expect and become confident, active participants in Welsh language and culture."

She was nominated by one of her learners, Luisa Andreou-Jones from Careers Wales, who said: "Ruth's encouragement has enabled several class members to sit exams, progress to more advanced classes and seek out opportunities to use Welsh socially and professionally.

"Thanks to her, we are developing understanding and skills which improve both our confidence and professional practice."


Cath Stephens, Head of Learn Welsh Glamorgan, added: "Ruth exemplifies excellence in adult education and truly embodies the spirit of the Inspire Award."



Gwobrau Tiwtoriaid

# Ysbrydoli!™ Inspire!™

Tutor Awards
2026



**#paidstopiodysgu**
**#neverstoplearning**

@ **Sefydliad Dysgu a Gwaith | Learning and Work Institute**

@ **Learning and Work Institute / Sefydliad Dysgu a Gwaith**

@ **learnworkcymru.bsky.social**

@ **LearnWorkCymru**

@ **LearnWorkCymru**


D&G SEFYDLIAD DYSGU A GWAITH
LEARNING AND WORK INSTITUTE L&W

7 Coopers Yard
Caerdydd/Cardiff
CF10 5NB
+44(0)29 2037 0900
enquiries@learningandwork.org.uk
**www.sefydliaddysguagwaith.cymru / www.learningandwork.wales**


Llywodraeth Cymru
Welsh Government